



Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2014

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 18

Llwyddo: 5

Er mai 5 yn unig o'r ymgeiswyr a lwyddodd, gellid tybio bod nifer o'r gweddill o fewn cyrraedd i lwyddo yn y dyfodol, gan fod sawl darn arall o waith a gyflwynwyd wedi derbyn gradd un mewn tair o'r pedair elfen. Yn wir, roedd ambell ymgeisydd yn agos iawn at y lan, gan mai mewn un o'r darnau yn unig, a hynny mewn un elfen yn unig, yr oeddent wedi llithro o dan y safon angenrheidiol. Fel sy'n digwydd yn aml, cafodd ambell ymgeisydd well hwyl ar y darn cyntaf na'r ail ddarn, o bosibl oherwydd nad oedd arddull yr ail ddarn mor gyfarwydd iddynt, neu efallai oherwydd nad oeddent wedi caniatáu digon o amser ar gyfer ail hanner y papur. Fel sydd wedi cael ei nodi yn y gorffennol, wrth sefyll arholiad o'r math hwn, gellid dadlau bod angen rhannu'r amser yn fanwl ar y cychwyn, a glynu at hynny'n fanwl, gan sicrhau hefyd bod llawn cymaint o amser wedi'i neilltuo ar gyfer prawfddarllen ag ar gyfer y cyfieithu ei hun.

Darn 1

Ceisiwyd dewis darn cyntaf a fyddai'n ddigon cyfarwydd ei arddull a'i gyd-destun ym maes cyfieithu, ond serch hynny, cafodd nifer o'r ymgeiswyr eu baglu gan rai elfennau. Enghreifftiau o hyn oedd cyfieithu'r gair 'need' yn y paragraff cyntaf a'r olaf, e.e. am **Does your child need a haircut?** cafwyd enghreifftiau megis *Ydy eich plentyn angen torri ei wallt? / A oes angen i wallt eich plentyn gael ei dorri? / A oes angen torri gwallt ar eich plentyn?* yn hytrach na'r cyfieithiadau llwyddiannus a gafwyd gan eraill: *Oes angen i'ch plentyn gael torri ei wallt? / A oes angen torri gwallt eich plentyn?* Yn yr un modd yn y paragraff olaf, baglodd sawl un dros **You need permission**, gyda nifer yn defnyddio 'am' gyda 'caniatâd', yn hytrach na *Mae angen caniatâd arnoch*.

Elfen arall a achosodd drafferth oedd cyfatebiaeth person yn y frawddeg **...a child who has experienced physical or sexual abuse at the hands of their own parents**, gyda sawl ymgeisydd yn defnyddio *...blentyn sydd wedi dioddef gan eu rhieni eu hunain*, er bod llawer hefyd wedi defnyddio *...ei rieni ei hunan*, fel sy'n gywir yma.

Baglwyd sawl un hefyd gan **...simple things you know the parents would agree to**, a man arall lle cafodd nifer o'r ymgeiswyr drafferth oedd dechrau'r paragraff olaf:

Without a council formally delegating authority to make decisions to foster carers,

Er bod rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus:

Heb i gyngor ddirprwyo'r awdurdod i wneud penderfyniadau yn ffurfiol i ofalwyr maeth

cafwyd enghreifftiau eraill oedd yn drwsgl neu'n aneglur:

Oni bai bod cyngor yn dirprwyo awdurdod ffurfiol fel bod gofalwyr maeth yn gwneud penderfyniadau

Os na fydd y cyngor yn dirprwyo'r awdurdod i wneud penderfyniadau...

Heb gyngor yn dirprwyo'r awdurdod yn ffurfiol...

Os nad yw cyngor, yn rhoi hawl ffurfiol i ofalwyr maeth i wneud penderfyniadau...

Heb gyngor sy'n dirprwyo...

Dengys yr enghreifftiau olaf hyn, er bod safon y cyfieithiadau o'r darn hwn at ei gilydd yn eitha derbyniol, bod diffyg ymwybyddiaeth o batrymau y Gymraeg – diffyg gallu i glywed beth sy'n llifo'n naturiol o bosib. Er y gellid maddau hynny ar y lefel sylfaenol, wrth ymgeisio am Aelodaeth Gyflawn mae angen meithrin ymwybyddiaeth gwbl broffesiynol o'r hyn sy'n gydnaws â theithi'r iaith, fel bod y cyfieithiad yn argyhoeddi'r darllenydd yn llwyr.

Darn 2

Roedd y darn hwn yn galw am arddull fwy ffurfiol na'r cyntaf, ac fe'i dewiswyd yn fwriadol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn wynebu her drwy gyfieithu darn oedd yn llai tebygol o fod yn dilyn patrwm eu gwaith pob dydd.

Yn anffodus, baglodd nifer o ymgeiswyr ar y cychwyn, gan iddynt ddefnyddio *Pan ganed / Pan ganwyd* i gyfleu **When Prince Edward... was born**. Er bod y ffurfiau cryno'n briodol o ran arddull a chywair y darn, rhaid sicrhau bod y treigladd priodol yn ei le. Cafwyd trafferth hefyd gyda gweddill y frawddeg gyntaf, **...a great outpouring of joy**. Er bod rhai cynigion da:

...llifodd ton o lawenydd dros boblogaeth y wlad

...bu gorfoledd mawr ymhlith poblogaeth y wlad

roedd eraill yn drwsgl:

...cafwyd llif o lawenydd mawr

...ffrydiodd poblogaeth y wlad gan orfoledd

...roedd yna ffrwydrad mawr o lawenydd

Gwelwyd nifer o'r ymgeiswyr yn cael trafferth cystrawennol gyda diwedd y paragraff cyntaf, **...that did little to merit it**. Roedd tuedd i ddefnyddio *a wnaeth fawr ddim* (yn hytrach na 'na wnaeth') neu *a wnaeth ychydig* (a oedd yn cymylu'r ystyr).

Fel yn y darn cyntaf, roedd tuedd i ddefnyddio ymadroddi nad yw'n taro deuddeg, a dylai'r ymgeiswyr geisio 'clywed' eu cynigion cyn cyflwyno'r gwaith, er mwyn sicrhau eu bod yn llifo'n naturiol yn yr iaith darged. Fel arall, yn anffodus, bydd y sgrïptiau a gyflwynir yn dal i gynnwys enghreifftiau fel y canlynol, nad ydynt yn argyhoeddi'r darllenydd:

...er mewn ffaith roedd hynny'n deitl anghywir

...a oedd yn hobi yr oedd yn ddifrifol iawn amdano pan oedd yn oedolyn

Nid oes fawr o gyfeiriadau y gellir creu damcaniaethau ohonynt am ei gymeriad ifanc

...er bod hyn mewn gwirionedd yn adwaeniad anghywir

Siom yw gweld enghreifftiau fel y rhain yn cael eu cyflwyno gan ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn, a charwn annog yr ymgeiswyr aflwyddiannus i wneud pob ymdrech i ddarllen cymaint o Gymraeg graenus ag y gallant, er mwyn ymgyfarwyddo ymhellach â phatrymau'r iaith, fel bod modd iddynt asesu eu gwaith eu hunain yn fwy beirniadol. Wedi dweud hynny, ni chafwyd yr un cynnig gwirioneddol wael, a soniwyd eisoes bod rhai yn agos iawn at llwyddo. O ddal ati, felly, a pharhau i fireinio'u sgiliau ieithyddol, gobeithio y bydd sawl un o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn llwyddo'r tro nesaf.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 5

Llwyddo: 0

Yn anffodus ni chafwyd yr un ymgeisydd llwyddiannus yn y rownd hon, a siom fawr yw gorfod nodi hynny. Mae'r Saesneg, yn naturiol, yn iaith fyd-eang sy'n cael ei siarad a'i defnyddio ar nifer helaeth o wahanol lefelau, ac fe all fod yn anodd osgoi dod i gysylltiad ag enghreifftiau gwael ohoni. Efallai bod hynny'n egluro, i ryw raddau, pam mae ymgeiswyr yn cael y fath drafferth i lunio cyfieithiadau Saesneg sy'n llifo'n naturiol ac yn argyhoeddi, ond, gwaetha'r modd, ni ellir llwyddo mewn arholiad ar y lefel hon heb feistrolï'r grefft o drosi testunau i Saesneg mwy graenus, sy'n argyhoeddi'r darllenydd.

Darn 1

Er bod y darn hwn yn un digon heriol, roedd y testun yn un sy'n derbyn sylw cyson yn y cyfryngau, a syndod felly oedd gweld un ymgeisydd yn defnyddio *post traumatic stress syndrome* (yn hytrach na 'disorder').

Cafwyd sawl enghraifft o ymadroddi nad yw'n taro deuddeg yn Saesneg, e.e.:

...that have been witness

...be it asleep or awake

...there can be no healing

*...more likely of committing suicide
...with 10% of those having killed themselves
...dealing with and living a normal life*

Cafwyd rhai cyffyrddiadau da hefyd, ac roedd ambell ymgeisydd yn agos at lwyddo yn y darn hwn. Dyma rai o'r cynigion llwyddiannus:

*...witnessed a disaster
...under extreme stress
...active service
...cannot be healed*

Yn anffodus, cafwyd hefyd ambell enghraifft lle roedd methiant llwyr i gyfleu ystyr y gwreiddiol, e.e.:

Yr unig wlad ym Mhrydain sydd heb ganolfan o'r fath yw Cymru!
The only country without such a centre is Wales!

...a gall gael ei lethu'n llwyr ar adegau
...and can at times be totally prostrate

Darn 2

Gellid dweud yn gyffredinol na chafodd yr ymgeiswyr gystal hwyl ar y darn hwn, o bosibl oherwydd ei fod mewn cywair mwy ffurfiol, ac felly yn galw am allu i gyfleu cywair tebyg yn y Saesneg. Serch hynny, cafwyd rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, e.e.:

...treuliodd Gwenallt rai misoedd yn ymadfer...
...Gwenallt spent a few months convalescing...

...dymuniad ysol llawer o rieni...
...parents longed for...

...a'r cyni [a ddeuai adeg streic]...
...and the privation...

...herio'r arlwy academiaidd...
...challenging the academic provision...

Yn anffodus, fodd bynnag, fel yn achos y darn cyntaf, cafwyd digonedd o enghreifftiau o fynegiant trwsogl, weithiau i'r graddau nes bod ystyr y gwreiddiol wedi'i newid yn llwyr, e.e.:

Un o eironïau mawr cymdeithas ddiwydiannol Maes Glo De Cymru...
One of the ironies of the industrial association South Wales Coalfield...

...ffermydd y tylwyth...
...ancestry farms...

...dymuniad ysol llawer o rieni...

...a desire had by many parents...

...many parents' dire wish....

To arbennig iawn o fyfyrwyr a aeth i'r Coleg y flwyddyn honno...

A very special alumni of students went to the College that year...

Gellir crynhoi'r sylwadau ar y gwaith hwn, felly, trwy ddweud bod angen i'r ymgeiswyr feistrolï'r grefft o gyfleu ystyr y gwreiddiol mewn cystrawennau Saesneg naturiol. Cafwyd ambell gyfieithiad unigol oedd yn eitha agos at lwyddo, ond ar y lefel hon, rhaid medru ymdrin â'r iaith darged mewn modd meistrolgar; fel arall, bydd y cyfieithiad yn llafurus ar y gorau, a gall ddirywio i'r fath raddau nes bod yn ddiystyr. Rhaid annog yr holl ymgeiswyr, fel y gwnaed ers sawl blwyddyn bellach, i fynd ati'n ddygn i wella'u gafael ar y Saesneg, er mwyn medru cyflwyno cyfieithiadau llwyddiannus.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch i'r holl farcwyr am eu gwaith trylwyr, ac i staff y swyddfa am bob cymorth. Mae'r tîm cyfan bob amser yn barod eu cymwynas, ac yn amyneddgar dros ben – diolch o galon iddynt i gyd am hwyluso gwaith y Prif Arholwr i'r fath raddau.

**Fiona Gannon
Tachwedd 2014**